
Canllawiau Dylunio Dwyieithog
Comisiynydd y Gymraeg



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Welsh Language
Commissioner
Bilingual Design Guide



Dylunio
Dwyieithog

Bilingual
Design

Cefndir

Background

1

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Mae dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

The principal aim of the Welsh Language Commissioner, an independent body created by the Welsh Language (Wales) Measure 2011 is to promote and facilitate the use of Welsh. This entails raising awareness of the official status of the Welsh language in Wales and imposing standards on organisations. This, in turn, will lead to the establishment of rights for Welsh speakers.

Two principles underpin the work:

- In Wales, the Welsh language should be treated no less favourably than the English language.
- Persons in Wales should be able to live their lives through the medium of the Welsh language if they choose to do so.

Cysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygydraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y
Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygydraeg.cymru

Contacting the Welsh Language Commissioner

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in
Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

Cynnwys

Rhagair	4
Rhan 1. Cynllunio	6
Arfer da wrth gynllunio	6
Cyfieithu a chreu testunau dwyieithog	8
Arfer da wrth gyfieithu a chreu testunau dwyieithog	8
Cysodi	10
Arfer da wrth gysodi	10
Gwahanu'r ieithoedd	12
Lliwiau	12
Teipiau	12
Cynllun	14
Colofnau cyfochrog	16
Fesul bloc	16
Tudalennau cyfochrog	17
Top a gwaelod	17
Cefn wrth gefn	18
Wyneb i waered	19
Cost	20
Pwyntiau i'w cofio	20
Rhan 2. Cymwysiadau	22
Delwedd weledol a brandio dwyieithog	24
Arwyddion	26
Deunyddiau papur	26
Pennyn a throedyn e-bost	26
Dogfennau hirach	28
Taflenni	28
Anfonebau, biliau a ffurflenni archebu	28
Ffurflenni	30
Hysbysebu	32
Hysbysebion print	32
Hysbysebion awyr agored	32
Marchnata 'feiral' a hysbysebion ar wefannau	32
Eitemau bychain	34
Pecynnu	34
Deunyddiau pwynt talu	34
Cyhoeddiadau electronig	36
Cyflwyniadau PowerPoint	36
Deunyddiau arddangos	36
Gwefannau a meddalwedd	38

Contents

Foreword	5
Part 1. Planning	7
Good practice in planning	7
Translation and creating bilingual texts	9
Good practice in translation and creating bilingual texts	9
Typesetting	11
Good practice when typesetting	11
Language separation	13
Colours	13
Typefaces	13
Layout	15
Parallel columns	16
Block by block	16
Parallel pages	17
Top and bottom	17
Back to back	18
Tilt and turn	19
Cost	21
Points to remember	21
Part 2. Applications	23
Visual identity and bilingual branding	24
Signage	26
Stationery	26
E-mail headers and footers	26
Longer documents	28
Leaflets	28
Invoices, bills and order forms	28
Forms	30
Advertising	32
Print advertisements	32
Outdoor advertising	32
Viral marketing and banner ads for websites	32
Limited space items	34
Packaging	34
Point of sale materials	34
Electronic publications	36
PowerPoint presentations	36
Display and exhibition materials	36
Websites and software	38

Rhagair

4



Mae sicrhau ansawdd yn rhan bwysig o waith Comisiynydd y Gymraeg. Y nod yw gofalu nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg fel bod modd i siaradwyr Cymraeg yng Nghymru gael mynediad at wasanaethau o'r ansawdd uchaf posibl. Mae diffinio'n union beth yw'r ansawdd disgwylidig yn bwysig, boed hynny yn y gwaith rheoleiddio neu wrth hybu a hwyluso'r Gymraeg.

Bwriad y canllaw arfer da hwn yw sefydlu'r arferion gorau posibl wrth fynd ati i ddylunio yn ddwyieithog.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cyfrannu at sicrhau cysondeb o ran ansawdd gwasanaethau Cymraeg yng Nghymru. Y nod yn y fan hon yw esbonio'r broses o ddylunio dwyieithog er mwyn sicrhau deunyddiau o ansawdd rhagorol. Mae'r canllaw wedi'i anelu at unrhyw sefydliad, hyd yn oed os nad oes gofyn statudol arnynt i weithredu yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Rwy'n ffyddiog y bydd y canllaw arfer da hwn yn feincnod defnyddiol i sefydliadau wrth iddynt gynllunio a chyflwyno ymgyrchoedd marchnata a chyhoeddusrwydd i'r cyhoedd yng Nghymru. Rwy'n gobeithio hefyd y bydd yn arwydd clir o'm dyhead i helpu eraill i ddarparu'r gwasanaeth dwyieithog gorau posibl i'r cyhoedd.

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg

Nodyn pwysig

Bydd gofyn statudol ar nifer o sefydliadau yng Nghymru i baratoi deunydd marchnata, cyhoeddiadau ac arwyddion dwyieithog yn unol â'r gyfundrefn safonau sydd i'w sefydlu dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Nid yw'r canllaw hwn yn god ymarfer statudol dan y Mesur ar gyfer paratoi deunydd dwyieithog.

Cefndir

Nod y canllaw yw sefydlu'r arfer gorau ym mhob agwedd ar ddylunio gan gynnig cyngor ymarferol i sefydliadau a dylunwyr. Mae **Rhan 1** y canllaw yn nodi'r egwyddorion creiddiol i reolwyr prosiect a dylunwyr eu hystyried wrth ddylunio'n ddwyieithog. Mae **Rhan 2** yn cynnig cyngor pellach ac enghreifftiau o arfer da.

Foreword

5



Ensuring quality is an important part of the Commissioner's work. The aim is to ensure that the Welsh language is treated no less favourably than the English language so that Welsh speakers gain access to the highest possible quality of service. It is important to define what is meant by quality, be that through regulatory duties or through promoting and facilitating the Welsh language.

The intention of this guideline is to identify the best possible practice when it comes to bilingual design.

The Welsh Language (Wales) Measure 2011 will of course contribute towards ensuring consistency with regards to the quality of Welsh language services in Wales. The aim here is to explain the process of bilingual design in order to produce first rate bilingual material. This guideline is aimed at any organisation, even if they aren't under any statutory obligation to operate in Welsh and English.

I am confident that this good practice guideline will provide a useful benchmark for organisations as they design and deliver marketing and publicity campaigns to the public in Wales. I also hope that it will provide a clear sign of my intention to help others to deliver the best possible bilingual services to the public.

Meri Huws

Welsh Language Commissioner

Important note

A number of organisations in Wales will be under a statutory obligation to prepare marketing materials, publications and signage in accordance with the standards that are to be established under the Welsh Language (Wales) Measure 2011. This guideline is not a statutory code of practice under the Measure on preparing bilingual material.

Background

The aim of the guideline is to establish the best practice in every facet of design through offering practical advice for organisations and designers. **Part 1** of the guideline explains the core principles of bilingual design to be considered by project managers and designers. **Part 2** gives further advice and examples of good practice.

Rhan 1

Cynllunio

6

Mae cynllunio da'n hanfodol mewn dylunio dwyieithog da. Mae'n rhaid i'r cleient a'r dylunydd fod yn ymwybodol o'r cychwyn y bydd y cynnyrch terfynol yn cynnwys y ddwy iaith. Mae'n arbennig o bwysig nodi'r ffaith hon yn y briff er mwyn i'r dylunydd roi lle i'r ddwy iaith mewn deunydd gweledol neu frasluniau. Yna gellir dewis y ffont, y cynllun, y diwyg ac ati. Yn ddelfrydol, dylai'r dylunydd ddechrau â thestun yn y ddwy iaith; dylid caniatáu digon o amser o flaen llaw ar gyfer cyfieithu a darllen proflenni.

Arfer da wrth gynllunio:

- Dylid ystyried y Gymraeg mewn unrhyw fenter newydd sy'n ymwneud â dylunio e.e. ailfrandio, creu gwefan neu newid arwyddion.
- Dylid cynnwys y Gymraeg o'r dechrau mewn briffiau a manylebau dylunio.

Fformat
Maint A4
4pp clawr
40pp testun

	Cymraeg Saesneg Clawr Cover		Cymraeg Saesneg 1		Cymraeg 2	Saesneg 3
Cymraeg 4	Saesneg 5	Cymraeg 6	Saesneg 7	Cymraeg 8	Saesneg 9	
Cymraeg 10	Saesneg 11	Cymraeg 12	Saesneg 13	Cymraeg 14	Saesneg 15	
Cymraeg 16	Saesneg 17	Cymraeg 18	Saesneg 19	Cymraeg 20	Saesneg 21	

Part 1

Planning

7

Good planning is essential for good bilingual design. Both the client and designer need to be aware from the outset that the finished product will include both languages. It is particularly important that this fact is clearly set out in the brief so that the designer can allow for two languages in any visuals or mock-ups. The appropriate font, layout, format and so on can then be selected. Ideally, the designer should start with text in both languages; sufficient time needs to be allowed beforehand for translation and proofreading.

Good practice in planning:

- The Welsh language should be considered as part of any new initiative that involves design e.g. rebranding, building a website or changing signage.
- The Welsh language should be included from the outset in any design briefs or specifications.

Format
A4 Size
4pp cover
40pp text

Cymraeg 22	Saesneg 23	Cymraeg 24	Saesneg 25	Cymraeg 26	Saesneg 27
Cymraeg 28	Saesneg 29	Cymraeg 30	Saesneg 31	Cymraeg 32	Saesneg 33
Cymraeg 34	Saesneg 35	Cymraeg 36	Saesneg 37	Cymraeg 38	Saesneg 39
Cymraeg Saesneg 40		Cymraeg Saesneg Cefn Back			

Cyfieithu a chreu testunau dwyieithog

Mae cyfieithu'n sgîl arbenigol, a dylid defnyddio cyfieithydd cymwys a phroffesiynol bob amser.

Gall camsillafu a chamgyfieithu gostio'n ddrud yn y pendraw, yn arbennig yng nghyswllt arwyddion. Gall camgymeriadau ieithyddol adlewyrchu'n wael ar y sefydliad gan ddenu sylw negyddol yn y wasg, y cyfryngau a chyfryngau cymdeithasol. Gellir osgoi hyn trwy ddefnyddio cyfieithydd proffesiynol a sicrhau bod deunyddiau cyhoeddus, megis arwyddion yn cael eu prawfddarllen yn broffesiynol cyn eu cyhoeddi.

Mae ysgrifennu copi hysbysebu yn ddwyieithog yn sgîl gwahanol i gyfieithu, a gall fod tipyn yn anoddach i gynhyrchu testunau byr a bachog mewn dwy iaith.

Os defnyddir cyfieithydd proffesiynol i ddarparu'r gwasanaeth hwn dylid sicrhau bod yr unigolyn hwnnw yn brofiadol yn y maes, a bod ganddo'r awdurdod i ddrafftio testun gwreiddiol yn hytrach na chyfieithu air am air o'r Saesneg.

Dylid hefyd cadw mewn cof y gellir comisiynu ysgrifennwr copi i ddrafftio testun yn y ddwy iaith. Mae drafftio dwyieithog yn aml yn cyfoethogi'r mynegiant yn y naill iaith a'r llall.

Arfer da wrth gyfieithu a chreu testunau dwyieithog:

- Dylid rhoi arweiniad i'r cyfieithydd neu i'r sawl sy'n gyfrifol am ddrafftio'r testun dwyieithog ynghylch arddull a chywair, y gynulleidfa darged ayyb.
- Gellid darparu enghreifftiau o waith blaenorol iddynt er mwyn cynnig arweiniad pellach.
- Dylid defnyddio cyfieithydd cymwys. Mae cyfeirlyfr cyfieithwyr ar gael ar cyfieithwycymru.org.uk
- Dylid dehongli'r testun yn wreiddiol a chelfydd yn hytrach na chyfieithu'n slafaidd.
- Dylid sicrhau bod y cyfieithiad yn cyfleu'r ystyr a'r neges ond ei fod hefyd yn llifo'n rhwydd ac yn dangos ôl meddwl.

Am ragor o wybodaeth am gyfieithu, cyfeiriwch at ein dogfen cyngor: 'Drafftio Dwyieithog, Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd' sydd ar wefan y Comisiynydd.

Translation and creating bilingual texts

Translation is a specialist skill, and a qualified and professional translator should be used each time.

Misspellings and mistranslations can prove costly, particularly in the case of signs. Such errors also reflect badly on the organisation in question, and can attract negative attention in the press, media and social media. This can be avoided by engaging a professional translator and ensuring that all public facing material such as signs are professionally proofread before they are published.

Bilingual copywriting is not the same as translation, and short, catchy advertising copy is often far more difficult to produce in two languages.

If a professional translator provides this service it is essential to ensure that the translator is experienced in this area, and that they are authorised to draft original copy in Welsh rather than translate directly from English.

It should also be borne in mind that it's possible to commission a bilingual copywriter to draft the text in both languages. Bilingual drafting often enhances the expression in both languages.

Good practice in translation and creating bilingual texts:

- Guidance should be given to the translator or for those responsible for drafting the bilingual text about style and tone, target audience etc.
- Examples of previous work could be provided in order to provide further guidance.
- A qualified translator should be used. A directory of translators is available at welshtranslators.org.uk
- The text should be interpreted in the original style rather than translating it word for word.
- It should be ensured that the translation conveys the meaning and the message but that it also flows freely and is properly thought-out.

For more information on translation, please refer to our advice document: 'Bilingual Drafting, Translation and Interpretation' which can be found on the Commissioner's website.

1 Yn yr wyddor Gymraeg mae 29 llythyren tra bo 26 yn yr wyddor Saesneg. Nid oes gan y Gymraeg y llythrennau 'k', 'q', 'v' a 'z', ond mae ganddi'r llythrennau ychwanegol 'ch', 'dd', 'ff', 'ng', 'll', 'ph', 'rh' a 'th'. Gelwir y llythrennau hyn yn 'ddeugraffau' – llythrennau unigol sy'n cynnwys mwy nag un nod. Mae hyn yn golygu bod gan 'Llandudno' 8 llythyren yn yr wyddor Gymraeg, a 9 llythyren yn yr wyddor Saesneg.

2 Yr acen fwyaf cyffredin a ddefnyddir yn y Gymraeg yw'r acen grom. Dim ond ar lafariaid y bydd yr acen grom a phob acen arall yn Gymraeg yn ymddangos. Yn y Gymraeg, y llafariaid yw A, E, I, O, U, W ac Y. Er enghraifft, 'dŵr' neu 'tân'. Defnyddir hefyd yr acen ddirychafedig (á) a'r acen ddisgynedig (à) yn ogystal â'r didolnod (ä).

Cysodi

Gellir osgoi llawer o'r prif broblemau sydd ynghlwm wrth ddylunio dwyieithog drwy dalu sylw o'r cychwyn i nifer o reolau cysodi sylfaenol. Unwaith eto, y gyfrinach yw cynllunio gofalus a sicrhau bod pawb sy'n rhan o'r broses cynhyrchu yn ymwybodol o'r dechrau y bydd y deunydd terfynol yn ddwyieithog. Mae'r paragraffau canlynol yn cynnig peth cyngor penodol.

Mae gan bob iaith ei nodweddion a'i phriodoleddau arbennig ei hun pan fydd hi'n ymddangos mewn print. Mae'r rhain yn cynnwys acenion a symbolau eraill, amledd llythrennau, cyfuniadau llythrennau a hyd geiriau. Dros y blynyddoedd, cafodd gwahanol deipiau a ffontiau eu llunio ar gyfer nodweddion ieithoedd penodol. Yn wreiddiol, lluniwyd llawer o'r teipiau a ddefnyddir yn gyffredinol erbyn hyn ar gyfer iaith benodol (y Saesneg gan amlaf), ac nid ydynt bob amser yn ddelfrydol ar gyfer cysodi ieithoedd eraill.

Arfer da wrth gysodi:

Dylid osgoi defnyddio ffontiau sydd ag esgynyddion a disgynyddion hir a rhai sy'n rhy grwn neu'n rhy onglog oherwydd y defnydd aml yn Gymraeg o symbolau llydan megis 'w' ac 'y' a deugraffau megis 'dd'¹. Dylai'r ffont fod yn addas ar gyfer yr wyddor Gymraeg gyfan (gan gynnwys nodau diacritig)². Dylid cofio hefyd y defnyddir y llythyren 'i' ar ei phen ei hun yn gyffredin mewn testun Cymraeg; ni ddylid ei dangos mewn priflythrennau oni bai ei bod yn ymddangos ar ddechrau brawddeg. Dylid gwirio bod y llythrennau 'l' ac 'll' wedi'u defnyddio yn gywir wrth ddylunio gan eu bod yn cael eu camgymryd yn aml am y briflythyren 'l' ('i' fel priflythyren).

Dylid osgoi defnyddio ffontiau sy'n defnyddio dulliau ansafonol ar gyfer dangos deugraffau a nodau diacritig a dylid hefyd osgoi defnyddio ffontiau ffug-Geltaidd neu galigraffig. Dylid ystyried materion hygyrchedd, yn enwedig ar gyfer pobl â nam ar eu golwg, yng nghyd-destun deddfwriaeth gydraddoldeb berthnasol a rheoliadau cysylltiedig. Dylid defnyddio ffontiau sydd ar gael yn gyffredin (h.y. UTF-8 Serif a Sans Serif) er mwyn sicrhau cysondeb wrth drosglwyddo testun o un raglen i un arall.

Mae defnyddio gwahanol ffontiau mewn teip penodedig – defnyddio gwahanol ffont ar gyfer y ddwy iaith – bron bob amser yn gwneud un fersiwn yn llai darllenadwy na'r llall.

Ni ddylid gwahanu deugraffau gyda chysylltnod ar ddiwedd llinell: mae'r rhain yn cynnwys 'dd', 'ch', 'ff', 'll', 'ng' a 'rh'. Dylai'r sawl sy'n darllen y proflenni wirio'r rhain.

Mae nifer fawr o eiriau byr cyffredin yn y Gymraeg. Geiriau un neu ddwy lythyren yw'r mwyafrif ohonynt, ac fe'u defnyddir yn aml gyda chollnod. Fe'u gwelir sawl gwaith mewn brawddeg, e.e. 'Aeth y dyn o'r tŷ i'r ardd'. Mae'n rhaid cael bylchau agos felly er mwyn cadw llif cyffredinol y testun, a dylid cofio hyn wrth ystyried unioni. Mae'n bwysig hefyd defnyddio acenion ar eiriau gan eu bod yn aml yn dynodi gwahaniaeth mewn ystyr geiriau e.e. gwyn a gŵyn ('cwyn' wedi'i dreiglo).

1 The Welsh alphabet has 29 letters whereas the English has 26. Welsh does not have the letters 'k', 'q', 'v' and 'z' but does have the additional letters 'ch', 'dd', 'ff', 'ng', 'll', 'ph', 'rh' and 'th'. These letters are known as 'digraphs' – individual letters that are made up of more than one character. This means that 'Llandudno' has 8 letters in the Welsh alphabet, and 9 letters in the English alphabet.

2 The most commonly used accent in Welsh is the circumflex. This, and all other accents in Welsh can only appear on vowels. In Welsh, the vowels are A, E, I, O, U, W and Y. For example, 'dŵr' (water) or 'tân' (fire). Acute (á) and grave (à) accents are also used, as is the dieresis (ä).

Typesetting

Many of the problems and challenges encountered in bilingual design can be avoided by bearing a few basic typesetting rules in mind from the outset. Once again, the key is careful planning and ensuring that everyone involved in the production process is aware from the start that the final material is to be bilingual. The paragraphs which follow offer some specific advice.

Each language has its own characteristics and peculiarities when it appears in print. These include accents and other characters, letter frequencies, letter combinations and word lengths. Different typefaces and fonts have been devised to accommodate the characteristics of specific languages. Many of the typefaces which are now used universally were originally designed for a specific language (particularly English) and may not always be ideal for setting other languages.

Good practice when typesetting:

Fonts with long ascenders and descenders should be avoided as should those that are too round or angular because of the frequency of wide characters such as 'w' and 'y' and digraphs such as 'dd'¹ in Welsh. The font used must cater for the full Welsh alphabet (including diacritic characters)². It should be noted also that the letter 'i' is frequently used by itself in Welsh text and it should never be capitalized unless it is found at the beginning of a sentence. It is important to check that the letters 'l' and 'll' have been used correctly, as the capital letter 'l' ('l' capitalized) is often mistakenly used instead.

Designer fonts that use a non-standard approach for digraph letters and diacritic marks should be avoided as should pseudo-Celtic or calligraphic fonts. Accessibility issues should be considered, particularly for people who are visually impaired, in the context of relevant equality legislation and attendant regulations. Commonly available fonts should be used (i.e. UTF-8 Serif and Sans Serif) to ensure compatibility when transferring text to other applications.

Using different font styles within a given typeface – using a different font for each language – will almost always make one version less legible than the other.

Digraphs should not be separated by a hyphen at the end of a line: these include 'dd', 'ch', 'ff', 'll', 'ng' and 'rh'. The proofreader should check these.

Welsh has many frequently-used short words. Most of them are of one or two letters, often used with an apostrophe. They may appear several times within one sentence, e.g. 'Aeth y dyn o'r tŷ i'r ardd' (the man went from the house into the garden). Close spacing is therefore essential to maintain the overall flow of text, and should be borne in mind when using justification. It is also important to use accents when needed as they often denote a difference in meaning, e.g. gwyn (white) and gŵyn (which is a mutated version of cwyn which means 'complaint').

Gwahanu'r ieithoedd

Lliwiau

Y dewis gorau ar gyfer gwahanu ieithoedd drwy ddefnyddio lliw yw dangos testun y ddwy iaith mewn du, a rhoi lliw neu gysgod y tu ôl i un iaith. Gellir gwneud hyn mewn dogfennau unlliw neu liw llawn. Mae cyfnewid lliwiau hefyd yn opsiwn, yn arbennig ar arwyddion. Fel arall, gellir defnyddio lliw gwahanol ar gyfer testun y ddwy iaith. Dylid cyfyngu hyn i deitlau, is-deitlau, pwyntiau bwled a chapsiynau yn unig, gan fod darllen testun estynedig mewn lliw yn gallu bod yn llafurus, ac yn anodd i bobl â nam ar eu golwg. Gall teip lliw hefyd roi gormod o bwyslais yn y manau anghywir.

Mae angen gofal wrth ddewis lliw ar gyfer print, gan mai du yw'r lliw sy'n cael ei ystyried yn 'normal'. Bydd unrhyw brint du felly, yn enwedig ar gefndir gwyn, yn ymddangos yn awtomatig fel pe bai'n fwy normal na phrint mewn unrhyw liw arall, ac fe fydd yn sicr yn haws i'w ddarllen.

Teipiau

Lle y bydd yn briodol dewis teip gwahanol ar gyfer y ddwy iaith, ni ddylid ddefnyddio teip anarferol neu addurniadol ar gyfer yr un iaith os ydych eisiau trin y ddwy iaith yn gyfartal.

Er nad yw'n fater sy'n ymwneud â dylunio dwyieithog fel y cyfryw, dylid ystyried ffont a maint print wrth baratoi deunydd ar gyfer pobl â nam ar eu golwg.

Rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran ffont, fformat, lliw, maint, eglurder, amlygrwydd nac ansawdd.



Mae defnyddio **gwahanol ffontiau** mewn teip penodedig – defnyddio gwahanol ffont ar **gyfer y ddwy iaith** – bron bob amser yn gwneud un fersiwn yn llai darllenadwy na'r llall.

Language separation

Colours

The best way of using colour to separate languages is to have the text in both languages in black, and placing a colour or tint behind one of the languages. This can be achieved in single, as well as full-colour documents. Colour reversal is also an option, particularly for signage. Alternatively, a different colour can be adopted for the text in each language. This should be limited to titles, subtitles, bullet points and captions, as reading extended text in colour can be tiring and can be difficult for visually impaired people. Also, colour type can put too much emphasis in the wrong places.

Care should be taken when deciding on colour for print, as black is still perceived as the 'normal' colour. Any black print – particularly on a white background – will automatically appear more normal, and will certainly be more legible, than print in another colour.

Typefaces

Where it is appropriate to choose a different typeface for each language, you should not use an unusual or decorative typeface for one language if you want to give equal treatment to both.

Although not strictly a bilingual design issue, font and point size need to be taken into account when preparing materials for people with limited visual ability.

The Welsh language should be treated no less favourably than the English language with regards to font, format, colour, size, clarity, prominence or quality.



Using **different font styles** within a given typeface – using a different font **for each language** – will almost always make one version less legible than the other.

Cynllun

Gellir cyfuno testunau Cymraeg a Saesneg mewn sawl ffordd. Gwelir y rhai mwyaf cyffredin yn yr enghreifftiau. Pa bynnag ddiwyg a ddefnyddir, yr ystyriaeth bwysicaf yw y dylai'r ddwy iaith fod yr un mor hawdd i'w darllen. Lle mae'n bosibl, dylid galluogi gweld y ddwy iaith ag un edrychiad.

Mae'n bwysig peidio â chymysgu'r ddwy iaith yn anghyson ac ar hap. Mae angen gwahanu a sicrhau y gellir gweld y ddwy iaith yn glir yn rhai o'r cynlluniau a drafodir yn y ddogfen hon: fesul bloc, colofnau cyfochrog, neu dop a gwaelod.

Ceir sawl cynllun safonol ar gyfer testunau dwyieithog. Mae rhai'n fwy addas nag eraill; bydd hyn fel rheol yn dibynnu ar amgylchiadau a natur y deunydd. Yn aml gallai mwy nag un ateb fod yn addas: dylid trafod yr opsiynau posibl â'ch dylunydd. Nodir rhai o brif gryfderau a gwendidau pob diwyg ar y tudalennau canlynol.



Mae'n bwysig peidio â chymysgu'r ddwy iaith yn anghyson ac ar hap. **Mae angen gwahanu a sicrhau y gellir gweld y ddwy iaith yn glir** yn rhai o'r cynlluniau a drafodir yn y ddogfen hon: fesul bloc, colofnau cyfochrog, neu dop a gwaelod.

Layout

There are many ways in which Welsh and English text may be combined. The most common of these are illustrated in the examples. Whatever format is chosen the most important consideration is that both languages should be equally easy to read. Where feasible, both languages should also be accessible in a single eye line.

It is important that the two languages are not mixed in an inconsistent or haphazard way. Ensuring that both languages are separated and easily identified is more critical if the following formats are chosen: block by block, parallel columns, or top and bottom.

There are various standard layouts for bilingual texts. Some formats are more appropriate than others; this will usually depend on circumstances and the nature of the material. Often more than one solution may be appropriate: consultation with your designer will help clarify the options available. Some of the key strengths and weaknesses of each format are noted on the following pages.



It is important that the two languages are not mixed in an inconsistent or haphazard way. **Ensuring that both languages are separated and easily identified** is more critical if the following formats are chosen: block by block, parallel columns, or top and bottom.

Colofnau cyfochrog

Cyflwynir y ddwy iaith mewn colofnau cyfochrog. Bydd dewis yr opsiwn hwn yn amlwg yn dibynnu ar y gofod sydd ar gael. Bydd angen i'r ddau fersiwn fod yn debyg o ran hyd. Mae hyn yn ffordd ddiwasttraff o ddefnyddio'r gofod gan mai unwaith yn unig y mae angen argraffu darluniau. Bydd yn rhaid i'r meingefn, y ddalen flaen, y cynnwys, y cyfeiriadau a'r mynegeion fod yn y ddwy iaith.

Parallel columns

The two language versions are presented side by side in parallel columns. Choosing this option will obviously depend on the space available. Both versions will need to be of similar length. This is an economical way of using space as illustrations need only be printed once. The spine, cover, title page, contents, references and indices will need to be in both languages.



Fesul bloc

Am bob bloc mewn un iaith, bydd bloc cyfatebol yn y llall. Yr unig adeg y bydd hyn yn addas fel rheol yw pan fo testun yn cynnwys unedau bach, megis capsiynau darluniau, arwyddion neu ddisgrifiadau byrion.

Block by block

For every block in one language there will be a corresponding block in the other. This is usually only appropriate where the text is composed of small units, such as captions for illustrations, signs or short descriptions.



Tudalennau cyfochrog

Cyflwynir y ddwy iaith ar dudalennau cyfochrog. Bydd angen i'r ddau fersiwn fod yn debyg o ran hyd, a gallai tudalennau cyfochrog ddangos yr un rhif tudalen. Gall y ddwy iaith rannu'r un darluniau unwaith eto. Bydd yn rhaid i'r meingefn, y ddalen flaen, y cynnwys, y cyfeiriadau a'r mynegeion fod yn y ddwy iaith.

Parallel pages

The two language versions are presented side by side on parallel pages. Both versions will need to be of similar length, and facing pages may bear the same page number. Illustrations can again be shared between language versions. The spine, cover, title page, contents, references and indices will need to be in both languages.



Top a gwaelod

Rhennir y dudalen yn ddau hanner, ar draws fel rheol. Mae'r diwyg hwn yn anarferol gan ei fod yn anochel yn golygu bod yr iaith sydd ar y top fel pe bai'n cael blaenoriaeth.

Top and bottom

The page is divided into two halves, usually horizontally. This format is an uncommon option because it inevitably means whichever language is on top appears to have priority.



Cefn wrth gefn

Argraffir y ddwy iaith gefn wrth gefn ar yr un ddalen/dalennau. Mae hyn yn arbennig o addas ar gyfer llythyrau a dogfennau byrion. Fe'i ffeirir hefyd gan rai sefydliadau ar gyfer cyhoeddiadau hirach. Gall y tudalennau ddangos yr un rhif tudalen ar y ddwy ochr.

Mae'r fformat hwn hefyd yn addas ar gyfer taflenni wedi'u plygu ar ddiwyg concertina, fel y gellir darllen y testun ar ei hyd ym mha bynnag iaith y mae'r darlennydd yn ei dewis. Rhaid dyblygu lluniau yn y fformat hwn.

Back to back

The two languages are printed back to back on the same sheet/s. This is particularly appropriate for letters and shorter documents. It is also favoured by some organisations for longer publications. Pages may bear the same page numbers on both sides.

This format is also appropriate for concertina folded leaflets, as the text can be read without interruption in whichever language the reader chooses. Illustrations need to be doubled up in this format.



Wyneb i waered


Ceir yma fersiwn yn y ddwy iaith, un wyneb i waered, wedi'u rhwymo gefn wrth gefn. Os oes meingefn, mae'n rhaid dangos y ddwy iaith arno. Un fantais o ddefnyddio'r diwyg hwn yw y gellir darllen y testun yn rhwydd yn y naill fersiwn neu'r llall. Gellir defnyddio'r un darluniau ar gyfer y ddwy iaith.

Nid yw'r diwyg hwn yn galluogi cynnwys gwybodaeth mewn poced yn y clawr yn hwylus. Hefyd, os oes angen arddangos y cyhoeddiad hwn bydd angen ei wneud mewn ffordd sy'n dangos yn glir ei fod yn gyhoeddiad dwyieithog, neu sicrhau bod y ddau glawr yn ddwyieithog.

Tilt and turn

This gives two separate language versions inverted and bound together back to back. If there is a spine both languages need to appear on it. One advantage of this format is that text can be read without interruptions in either version. The same illustrations may be used for both language versions.

This format does not easily lend itself to including pocketed information in the cover. Also, if this publication needs to be put on display it will need to be done in a way that will make it clear that it is a bilingual publication, unless the cover for each version is bilingual.



Cost

Nid oes rheid i gynhyrchu rhywbeth yn ddwyieithog gostio ddwywaith cymaint â chynhyrchu rhywbeth uniaith. Yn y bôn, mae'n fwy cost effeithiol dewis cynhyrchu rhywbeth yn ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf, yn hytrach na newid rhywbeth yn nes ymlaen sydd eisoes wedi'i greu mewn un iaith. Mae'n anorod fod peth cost ychwanegol wrth gynyddu nifer y geiriau neu ofod dylunio ond gall y manteision ychwanegol o wneud hyn orbwysu'r gost ariannol.

Mae pwysigrwydd cynllunio'n ofalus – gan sicrhau yr ymdrinnir â materion dwyieithrwydd o'r cychwyn – wedi'i bwysleisio eisoes. Dylid cofio hefyd y bydd y cynnyrch yn y pen draw yn edrych yn llai trwsogl o gael ei ddylunio'n ddwyieithog o'r cychwyn, yn hytrach nag mewn un iaith, gan ychwanegu'r ail iaith yn nes ymlaen.

Mae cyfieithu'n agwedd ychwanegol ar ddylunio dwyieithog. Mae ceisio torri corneli yn y cyd-destun hwn bron bob amser yn gamgymeriad, sy'n gallu costio'n ddrud iawn yn y pendraw os oes rheid ailgynhyrchu deunyddiau gwallus. Yn arbennig, fel y nodwyd eisoes, dylid sicrhau bob amser bod proflenni terfynol unrhyw waith yn cael eu prawfddarllen yn ofalus.

Pwyntiau i'w cofio

- Nid oes raid i arwydd (neu hysbysfwrdd) dwyieithog fod ddwywaith maint arwydd uniaith.
 - Bydd y rhan fwyaf o gostau cynhyrchu arwyddion ar gyfer deunyddiau, neu gost y gofod ar gyfer poster.
 - Efallai y bydd yn rheid i ffurflen ddwyieithog fod yn un maint safonol, ac os felly efallai y bydd yn rheid i'r dylunydd ganfod ateb i broblem cyfyngiadau gofod.
 - Gellir argraffu dogfennau dwyieithog byr, megis llythyrau, ar ddwy ochr, gan arbed costau papur.
 - Bydd dogfennau hirach fel rheol yn dyblu o ran maint o'u cynhyrchu'n ddwyieithog, ac os felly gall y papur, y lliw, y ffotograffau a'r darluniau a ddewisir gadw costau'n is.
-

Cost

Producing something bilingually certainly need not cost twice as much as doing it in one language. It is much more cost effective to opt for the bilingual approach from the outset, rather than replacing at a later stage something which has already been created in just one language. It is unavoidable that some additional costs are incurred when increasing the design space or word count. However, the additional benefits for doing this should outweigh the financial costs.

The importance of careful planning – ensuring that the bilingual issues are addressed from the start – has already been stressed. Remember too that the finished product will generally look less clumsy when it has been designed bilingually from the start, rather than in one language, with the second language added later.

One additional aspect of all bilingual design will be translation. Skimping on translation is nearly always a mistake, which can end up costing the organisation far more in the long run if incorrect materials have to be re-produced. In particular, as noted earlier, final versions in any language should be carefully proofread.

Points to remember

- A bilingual sign (or billboard) need not be twice the size of one in just one language.
 - The bulk of the production cost for signs will be for the materials or the cost of the space in the case of a poster.
 - A bilingual form may have to be made to a standard size, in which case the designer may need to find a solution to the problem of limited space.
 - Short bilingual documents, such as letters, may be printed on both sides, saving on paper costs.
 - Longer documents will usually be twice the size when produced bilingually, in which case choice of paper, colour, photographs and illustration will help keep costs down.
-

Rhan 2

Cymwysiadau

Yn yr adran hon trafodir gofynion penodol gwahanol gymwysiadau dylunio. Rhoddir enghreifftiau o'r gwahanol ffyrdd o ddylunio'n ddwyieithog.

Dylid cofio hefyd y bydd angen i rai sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg yn y cymwysiadau hyn yn rhan o'u gofynion statudol.

Part 2

Applications

In this section the specific requirements of different design applications are discussed. Examples of the different approaches towards bilingual design are given.

It is important to note that some organisations will have to use the Welsh language in these applications as part of their statutory duties.

Delwedd weledol a brandio dwyieithog

Mae brandio busnes, cynnyrch neu wasanaeth yn ddwyieithog yn rhoi neges gref i gwsmeriaid a darpar gwsmeriaid. Mae brand yn crisialu holl bersonoliaeth, egwyddorion a gwerthoedd y sefydliad. Mae brandiau cryfion yn weladwy iawn, a gallant fod yn bwysig i adeiladu enw da a sefydlu teyrngarwch cwsmeriaid at hoff gynnyrch neu gwmnïau.

Nid yw brandio'n ddwyieithog ynddo'i hun yn fwy cymhleth nac anodd na brandio'n uniaith, ond mae angen cynllunio gofalus, briffio trwyadl a dylunio creadigol. Dylid trin yr enwau Cymraeg a Saesneg ac unrhyw logo neu symbol fel un endid o'r cychwyn cyntaf. Rhaid talu sylw gofalus i unrhyw is-benawdau (straplines) yr ystyrir eu hychwanegu yn rhan o frand, gan y gall hyn newid yn sylfaenol natur ddwyieithog y brand, oni bai fod yr is-benawdau hefyd yn gwbl ddwyieithog.


Ar gyfer sefydliadau sydd â brand a delwedd weledol gref a ddefnyddir y tu hwnt i Gymru eisoes, gall fod yn bosibl addasu'r ddelwedd ehangach ar gyfer diwyg dwyieithog. Mae'n haws o lawer gwneud hyn os nad yw'r brand a/neu'r logo yn dibynnu ar eiriau yn rhan o'i hunaniaeth. Defnyddir delweddau brand mewn sawl sefyllfa, gan gynnwys deunyddiau papur, bathodynau enw, cerbydau, arwyddion, hysbysebion, pecynnu a gwefannau: bydd yn rhaid felly sicrhau bod y ddelwedd weledol a ddewisir yn gweddu ar draws pob platfform.

Visual identity and bilingual branding

Branding a business, product or service bilingually gives customers and potential customers a strong message. A brand crystallises an organisation's personality, beliefs and values. Strong brands are very visible and can be fundamental to building an organisation's reputation, and establishing customer loyalty to favourite products and companies.

Bilingual branding is not inherently more complicated or difficult than monolingual branding, provided proper planning, briefing and good design are employed. The Welsh and English names and any logo or symbol should be treated as a single entity from the outset. Particular consideration should be given to the implications of introducing straplines as part of any brand, since this can fundamentally change the bilingual nature of the brand, unless the straplines are also fully bilingual.

For organisations with an existing strong brand and visual identity which is in use beyond Wales, it may be possible to adapt their wider-used identity to a bilingual format. This is obviously much easier to achieve if the brand is not dependent on text as part of its identity. Brand identity will be applied in several situations, including stationery, name badges, vehicles, signage, advertising, packaging and websites: the visual image therefore needs to be consistently applied across all platforms.



Arwyddion

Mae'r prif ystyriaethau parthed arwyddion yn ymwneud â dylunio'n gyffredinol yn hytrach na dylunio dwyieithog fel y cyfryw. Mae'n anodd pennu rheolau cyffredinol. Mae anghenion pawb yn wahanol, a bydd gwahanol ystyriaethau'n berthnasol i wahanol raddau. Serch hynny, dylid cofio bod gwahanu ieithoedd yn arbennig o bwysig ar arwyddion. Dylid ystyried ffont, fformat, lliw, maint, eglurder, amlygrwydd ac ansawdd.

Gellid dylunio rhai arwyddion i rannu teitlau sy'n gyffredin yn y ddwy iaith. Weithiau mae pictogramau yn gweithio'n well na geiriau, os yw hynny'n briodol.

Deunyddiau papur

Wrth ddylunio deunyddiau papur dwyieithog bydd yn rhaid i chi ystyried sut i gyflwyno nifer o fanylion yn y ddwy iaith. Gallai'r rhain gynnwys cyfeiriadau, a allai fod yn hollol wahanol ym mhob iaith, teitlau swyddi a sloganau neu is bennawd sefydliad. Mae nifer o ddulliau o osod y rhain a'r logo ar bapur pennawd, fel y dengys yr enghreifftiau isod.

Os anfonir llythyrau dwyieithog yn aml efallai y dylid ystyried argraffu papur pennawd llythyr ar y ddwy ochr, er mwyn galluogi argraffu llythyrau gefn wrth gefn. Yn yr un modd, mae'r lle cyfyngedig ar slipiau cyfarch a chardiau busnes yn golygu bod y dewis cefn wrth gefn yn aml yn fwy priodol.

Pennyn a throedyn e-bost

Dylid ystyried dyluniad a gosodiad unrhyw bennyn neu droedyn corfforaethol sy'n cael eu defnyddio mewn negeseuon e-bost. Mae angen mwy o le ar gyfer gwybodaeth mewn dwy iaith, felly dylid defnyddio cyn lleied o destun â phosibl; mae'r un peth yn wir am atebion awtomatig allan-o'r-swyddfa.

Signage

The prime considerations regarding signage will be general design matters rather than those specific to bilingual design. It is difficult to set out general rules. Everyone's needs are different, so different considerations will apply in varying degrees. However, language separation is particularly important on signs, and consideration should be given to font, format, colour, size, clarity, prominence and quality.

Certain signs could be designed to share titles which are common to both languages, and pictograms can sometimes be more effective than words, if appropriate.



Stationery

Designing bilingual stationery requires presentation of a number of details in both languages. These may include addresses, which may be completely different in each language, job titles and any straplines the organisation may use. There are a number of ways to incorporate these and the logo on stationery, as shown in the examples below.

If bilingual letters are sent out regularly it may be worth considering printing the letterhead on both sides, to enable printing letters back to back. Similarly, the limited space available on compliment slips and business cards means that the back to back option is often the least cluttered.

E-mail headers and footers

The design and layout of any corporate headers and footers which may be used in e-mails should be considered. Incorporating two languages requires more space, so a minimum of text should be used; the same is true for standard out-of-office automatic replies.



cyfreithwyr
abc
solicitors

Siwan Fflur Jones
Cyfreithwr Cynorthwyl / Assistant Solicitor
Arbenigwyr mewn Cyfraith Teuluol / Specialists in Family Law
8 Parc Padarn, Stryd Fawr, Caerdydd AB12 3CD
8 Padarn Park, High Street, Cardiff AB12 3CD
t 01632 543210
e siwan@cyfreithwyrabcsolicitors.co.uk
w www.cyfreithwyrabcsolicitors.co.uk

Dogfennau hirach

Fel rheol dewisir tudalennau neu golofnau cyfochrog, neu ffurf wyneb i waered ar gyfer llyfrynnau neu adroddiadau. Yn y pen draw, dewis personol yw'r diwyg, ac nid oes rheolau pendant ar ba ddiwyg sy'n gweithio orau ym mha fath o ddogfen. Bydd y ffordd y cyflwynir cynnwys dwyieithog y ddogfen yn dibynnu ar lawer o ffactorau, megis a fydd mewn lliw llawn, a oes ffotograffau neu ddarluniau, a oes angen cynnwys poced yn y clawr, a sut yr arddangosir y ddogfen.

Taflenni

Defnyddir y dull concertina fel rheol ar gyfer taflenni dwyieithog. Mae hyn yn gweithio'n dda â'r Gymraeg ar un ochr, a'r Saesneg ar y llall, cyn belled â bod nifer paneli'r daflen yn odrif gan ganiatáu clawr ym mhob iaith. Gellir addasu'r cynllun hwn pe bai angen cynnwys rhwyglen yn y daflen.

Ceir diwygiau eraill, wrth gwrs, ar gyfer taflenni, ac efallai y bydd y rhain yn caniatáu defnyddio lliw a theipograffeg i gyflwyno testun dwyieithog ar yr un dudalen, fel y dengys yr enghreifftiau.

Anfonebau, biliau a ffurflenni archebu

Ni ddylai dylunio ffurflen rag-argraffedig a fydd yn cael ei gorargraffu gan gyfrifiadur greu unrhyw anawsterau. Bydd yr un egwyddorion cyffredinol yn wir, dim ond bod rhaid dylunio'r ffurflen ar sail y gofod sydd ei angen er mwyn argraffu'r manylion perthnasol yn y ddwy iaith. Nid oes angen i fil dwyieithog fod yn fwy o faint na bil uniaith, a gellir ei gynhyrchu gan ddefnyddio un lliw'n unig.

Longer documents

The usual choice of format for booklets or reports is parallel pages or columns, or tilt and turn. Ultimately, the choice of format is a personal one, and there are no set rules as to which format works best for what type of document. How the bilingual content of any document is presented will depend on many factors, such as whether or not it is to be in full colour, whether there are photographs or illustrations, whether or not there needs to be a pocket inside the cover, and how the document is to be displayed.

Leaflets

The usual format for leaflets is the concertina format. This works well with the Welsh on one side, and the English on the other, as long as the leaflet has an odd number of panels allowing a separate cover in each language. This layout can also be adapted to include a tear-off form if necessary.

There are, of course, other formats for leaflets, which may allow use of colour and typography to present the bilingual text on the same page, as the examples show.

Invoices, bills and order forms

Designing a pre-printed form that is to be overprinted by computer should not present any difficulties. The same general principles will apply, but it will have to be designed around the space required to print any relevant details in both languages. A bilingual bill need not be any bigger than a monolingual one, and can be produced using just one colour.

Morluniau



English copy to be inserted into this space. English copy to be inserted into this space. English copy to be inserted into this space. English copy to be inserted into this space. English copy to be inserted into this space. English copy to be inserted into this space. English copy to be inserted into this space. English copy to be inserted into this space. English copy to be inserted into this space. English copy to be inserted into this space.

Seascapes



English copy to be inserted into this space. English copy to be inserted into this space. English copy to be inserted into this space. English copy to be inserted into this space. English copy to be inserted into this space. English copy to be inserted into this space. English copy to be inserted into this space. English copy to be inserted into this space. English copy to be inserted into this space. English copy to be inserted into this space.

BRO MOROLWG: The never ending sea... 3

Meishi

CAFFI • BWYTY • BAR
CAFE • RESTAURANT • BAR



English copy to be inserted into this space. English copy to be inserted into this space. English copy to be inserted into this space. English copy to be inserted into this space. English copy to be inserted into this space. English copy to be inserted into this space. English copy to be inserted into this space. English copy to be inserted into this space. English copy to be inserted into this space. English copy to be inserted into this space.

CAFFI • BWYTY • BAR

CAFE • RESTAURANT • BAR

Anfoneb Invoice



Disgrifiad Description

Rhif Anfoneb Invoice No

Cyfanswm Total

Ffurflenni

Gall ffurflenni y mae'n rhaid eu llenwi â llaw neu ar-lein ofyn am gryn greadigrwydd ar ran y dylunydd, gan mai ychydig o le sydd ar gael fel rheol, yn arbennig os oes rhaid i'r ffurflen fod yn un maint safonol. Yn ogystal mae angen digon o le i'r sawl sy'n llenwi'r ffurflen roi'r manylion angenrheidiol yn ei ddewis iaith.

Gall defnyddio lliw a theipiau'n greadigol olygu y gellir dylunio ffurflen neu holiadur cwbl ddwyieithog, a dyma yw'r dewis gorau o bell ffordd. Mae'n hawdd ei darllen yn y ddwy iaith, a gellir ei llenwi yn y naill iaith neu'r llall. Gall colofnau cyfochrog fod yn addas ar gyfer ffurflenni lle mae angen ateb byr, neu dic. Gellir gadael lle neu flychau yng nghanol y dudalen, rhwng y colofnau. Os oes llawer o destun esboniadol, neu os oes angen mwy o le i roi'r ateb, efallai y bydd angen paratoi fersiynau ar wahân ar gyfer y ddwy iaith. Os felly, dylai cynllun y tudalennau fod yn union yr un fath er mwyn ei gwneud yn haws eu prosesu, ac er mwyn peidio â thrin testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn dibynnu ar hyd y ffurflen gellid argraffu'r ddau fersiwn gefn wrth gefn, neu ynghlwm ochr yn ochr.


Dylai ffurflenni, megis tocynnau parcio, a lenwir â llaw ac a gyflwynir wedyn i'r cyhoedd, gynnwys y ddwy iaith ar yr un dudalen. Mae hyn yn golygu mai unwaith yn unig y bydd angen eu llenwi, ac na fydd yr un fersiwn yn cael ei adael yn wag, fel sy'n digwydd fel rheol pan fo'r ieithoedd ar wahân.

Forms

Forms that have to be filled in by hand or online can demand some creativity on the part of the designer, as the space available is often limited, especially if the form has to be of a standard size. Additionally, there needs to be enough space for the person completing the form to fill in the necessary details in the language of their choice.

Creative use of colour and typefaces can make it possible to design a fully bilingual form or questionnaire, and this is by far the preferred option. It is easy to read in both languages, and can be completed in either language. Parallel columns can be appropriate for forms which require just a short reply, or a tick. Space or boxes can be left in the centre of the page, in between the columns. If there is a large amount of explanatory text, or more space has to be allowed to fill in, then separate versions may need to be prepared for each language. In this case, the page layout should be identical in order to facilitate processing, and so that the Welsh text is treated no less favourably than the English. Depending on the length of the form, the two versions may be printed back to back, or attached side by side.

Forms, such as parking tickets, which are filled in by hand and then presented to the public, should ideally have both languages on the same face. This means that they need only be filled in once, and that neither version will be left blank, as generally happens when the languages appear separately.



Cyfathrebu creadigol | Creative communications

Ffurflen Archeb
Purchase Order

Cyfeiriad | Address

Rhif Archeb | Purchase Order No.

Rhowch rif y job neu gyfeirnod fel rhan gyntaf rhif y ffurflen archeb
Please enter job number or a reference as the first part of purchase order number

Dyddiad | Date

Archebwyd gan | Ordered by

Adran | Department

Eich Cyf | Your Ref

Disgrifiad Description	Nifer Quantity	Pris Unedol (NET) Unit Price (NET)	Cyfanswm (cyn TAW) Total (before VAT)

DALIER SYLW Rhaid cynnwys Rhif Archeb ar bob anfoneb
Bydd oedi cyn talu anfonebau oni chynhwysir hwnnw
PLEASE NOTE Purchase Order Number must be quoted on invoices otherwise there will be a delay in payment

Anfonebwch ACUA am yr uchod os gwelwch yn dda
Please invoice ACUA for the above

Tâl gydag Archeb Sic Arian Cerdyn Credyd
Payment with Order Cheque Cash Credit Card

3 Parc Busnes Ystwyth | 3 Ystwyth Business Park, Aberystwyth SY23 3AB
T 01632 543210 F 01234 543211 E info@acua.co.uk W acua.co.uk
Cofrestrwyd yng Nghymru | Registered in Wales No. 7654321 Rhif TAW | VAT No. 987 6543 21

CYFANSWM
TOTAL

TAW os yn daladwy
VAT if applicable

GWERTH CRYNSWTH
GROSS

Awdurdodwyd gan | Authorised by

Meithrinfa Honey Bears Nursery

Hoffem glywed eich barn...
We'd like to hear your views...

- Copi Cymraeg sydd i'w mewnosod yn y gofod hwn.
English copy to be inserted into this space.
- Copi Cymraeg sydd i'w mewnosod yn y gofod hwn.
English copy to be inserted into this space.
- Copi Cymraeg sydd i'w mewnosod yn y gofod hwn.
English copy to be inserted into this space.

Enw Name _____

Cyfeiriad Address _____

Cod Post Post Code _____

Ffôn Phone _____



Honey Bears

MEITHRINFA | NURSERY

2

Freepost ABCD-EFGH-IJKL
Meithrinfa Honey Bears Nursery
PO Box 01
Cardiff
AB01 3CD

Hysbysebu

Mae pob hysbyseb yn gyfle i hyrwyddo'r sefydliad, a chyfleu ei ddelwedd ddwyieithog. Bydd cynllun a diwyg hysbyseb yn dibynnu ar ei diben a'i chynnwys. Bydd y rheolau cyffredinol a amlinellwyd ynghynt ynglŷn â defnyddio lliw, teipiau ac ati'n berthnasol, ond bydd y cyfyngiadau gofod yn golygu bod yn rhaid meddwl yn greadigol.

Hysbysebion print

Ni fydd rhaid neilltuo mwy o ofod nag ar gyfer hysbyseb uniaith o reidrwydd. Hyd yn oed os bydd angen, mae'n debyg y bydd hi dal yn rhatach i ddylunio a gosod hysbyseb ddwyieithog na gosod dwy hysbyseb ar wahân ar gyfer pob iaith.

Hysbysebion awyr agored

Mae defnyddio posteri mawr ar hysbysfyrddau neu leoliadau awyr agored eraill yn tynnu sylw ac yn creu effaith weledol, sy'n cynnig ffordd rwydd i unrhyw sefydliad ddangos gwir ymrwymiad at ddwyieithrwydd. Fel arfer, mae'n bosibl cynnwys ail iaith mewn ymgyrch hysbysebu awyr agored heb gost ychwanegol o gwbl. Serch hynny, mae'r gallu i ysgrifennu copi creadigol yn ddwyieithog yn hanfodol, ac anaml mae cyfieithiadau uniongyrchol o sloganau hysbysebu bachog neu is-benawdau yn gweithio.

Marchnata 'feiral' a hysbysebion ar wefannau

Dyma agwedd o'r byd marchnata sy'n tyfu'n gyflym iawn. Wrth baratoi'r deunyddiau hyn, dylid cofio bod angen iddyn nhw hefyd fod yn ddwyieithog. Dylid sicrhau bod unrhyw deipiau a ddefnyddir yn cefnogi'r llythrennau Cymraeg unigryw.

Advertising

Every advertisement presents an opportunity to promote the organisation, and to project its bilingual image. The design and format of the advertisement will depend on its purpose and its content. The general rules outlined earlier about the use of colour, typefaces and so on will all apply, but the space confines will demand some artistic creativity.

Print advertisements

It may not be necessary to book a larger space than for an advertisement in one language only. If it is necessary, it will probably still work out cheaper to design and place one bilingual advert than to place two separate ones for each language.

Outdoor advertising

The use of large posters on billboards or other outdoor sites is impactful and eye-catching, offering any organisation a very quick fix for demonstrating a real commitment to bilingualism. It is usually possible to introduce a second language on a poster ad campaign for no extra cost. Good bilingual copywriting is essential however, as direct translations of short, catchy advertising copy or straplines rarely work well.

Viral marketing and banner ads for websites

This is a growing aspect of the marketing world. In preparing material for these applications, it should be borne in mind that these also need to be bilingual. It should be ensured that any typesets used support unique Welsh characters.

Beico mynydd a'r ei orau **Mountain biking at its best**

MTB Traws Gwlad
Coed Du, 30 Awst 2014

MTB Cross Country
Black Wood, 30 August 2014



www.beiciocymrubiking.com

beicio CYMRU biking

Lle mae dysgu yn dechrau... **Where learning begins...**

Copi Cymraeg sydd i'w mewnosod yn y gofod hwn. Copi Cymraeg sydd i'w mewnosod yn y gofod hwn. Copi Cymraeg sydd i'w mewnosod yn y gofod hwn. Copi Cymraeg sydd i'w mewnosod yn y gofod hwn.

English copy to be inserted into this space. English copy to be inserted into this space. English copy to be inserted into this space. English copy to be inserted into this space.

Am fwy o wybodaeth, ffonwch: 01632 543210 neu ewch i www.honeybears.co.uk

For more information, please ring: 01632 543210 or go to www.honeybears.co.uk



Honey Bears
MEITHRINFA | NURSERY

Cwpan y Byd... Gwylwch yn Fyw! **The World Cup... Watch it Live!**



RS2
Eich sianel ddigidol ar gyfer chwaraeon
Your digital channel for sport

Hwylus www.hwylus.co.uk



Hwylus Ar gyfer eich holl gychfannau gwyliau
For all your holiday destinations www.hwylus.co.uk

Eitemau bychain

Mae gan eitemau bychain megis tocynnau, cardiau credyd a gwahoddiadau ofod cyfyngedig.

Yn y mwyafrif o ddogfennau printiedig mae maint cyffredinol neu nifer y tudalennau'n dibynnu ar nifer y geiriau a'r delweddau a ddangosir. Gyda thocynnau a chardiau mae'n rhaid cadw'r eitemau fel rheol mor fach ag y bo modd, er mwyn iddynt fynd i waled neu boced. Mae maint hefyd yn effeithio ar gost: fel rheol gellir cynhyrchu mwy o eitemau â phapur neu gerdyn maint safonol os yw'r eitemau hynny'n fach, ac mae felly'n rhatach eu cynhyrchu.

Er mwyn i gymwysiadau llai weithio, rhaid defnyddio cyn lleied o destun â phosibl, er mwyn i'r geiriau fod yn ddarllenadwy ac er mwyn gallu gwahaniaethu rhwng yr ieithoedd. Mae'r enghreifftiau yn dangos rhai o'r dulliau posibl ar gyfer cymwysiadau llai.

Pecynnu

Mae nifer o sefydliadau bellach yn ymwybodol o fanteision pecynnu cynnyrch yn ddwyieithog, yn arbennig er mwyn tynnu sylw at ansawdd, tarddiad a natur unigryw y cynnyrch. Ymhlith y ffactorau i'w hystyried mae enw'r cynnyrch – a allai fod yr un fath yn y ddwy iaith neu beidio – disgrifiadau o'r cynnyrch, ac unrhyw brint mân: bydd yn rhaid dangos y rhain i gyd mewn gofod cyfyng. Mae'n hanfodol bod y testun yn glir ac yn gryno er mwyn sicrhau bod y cynnyrch yn ymddangos yn lân ac yn daclus yn y pen draw.

Deunyddiau pwynt talu

Ychydig o destun a fydd fel rheol ar ddeunyddiau pwynt talu. Bydd y ffordd y cyflwynir hyn yn dibynnu ar natur a diwyg y cynnyrch dan sylw, a fydd yn eu tro'n effeithio ar natur a diwyg yr hyn a ddangosir. Bydd gwahanu'r ieithoedd yn ofalus drwy ddefnyddio lliw'n ei gwneud yn haws ei ddarllen, a bydd hefyd yn nodwedd ychwanegol yn y dylunio.

Limited space items

Various smaller items such as tickets, credit cards and invitations all have limited space.

With most printed documents the overall size or number of pages is dictated by the number of words and images one has to display. With tickets and cards it is preferable to keep the size of the item as small as possible, in order to fit into a wallet or a pocket. Size also has a bearing on cost: in general, the smaller the item, the more that can be produced from a standard size sheet of paper or board, thus making the end product more economical.

In order for smaller-sized applications to work, text must be kept to the absolute minimum, so that the wording is legible, and the languages can be easily distinguished. The examples illustrate some possible solutions for smaller applications.

Packaging

Many organisations recognise the advantages of bilingual packaging for their products, particularly for enhancing the perceptions of quality, providence and uniqueness. Among the things to consider include the product name – which may or may not be the same in both languages – descriptions of the product, and any small print, all of which need to be displayed in a limited space. Clear, concise text plays a crucial role in ensuring that the end product appears clean and uncluttered.

Point of sale materials

Point of sale material will usually have a minimal amount of text. How this is presented will depend on the nature and format of the product in question, which in turn will affect the nature and format of the display. Language separation by the careful and considered use of colour will help legibility, as well as being an extra design feature.




otium
nwyddau
hamddenol
lifestyle
bits&bobs
www.otium.com



otium
nwyddau
coginio
kitchen
utensils


otium
ar eich
beic
on your
bike


otium
cerddoriaeth
a mwy
more than
just music


otium
lolf a
swyddfa
loung e
& office


Cyhoeddiadau electronig

Mae llawer o sefydliadau bellach yn cyhoeddi adroddiadau a dogfennau fel ffeiliau PDF ar-lein yn bennaf. Os dylunnir deunydd ar gyfer cyhoeddi ar-lein, bydd yn rhaid sicrhau bod fersiynau ar wahân yn y ddwy iaith yn cael teitl yn yr iaith briodol. Mewn dogfennau ar wahân, dylid croesgyfeirio at y fersiwn yn yr iaith arall ar y flaendalen.

Cyflwyniadau PowerPoint

Mae'n arfer da cynnwys y ddwy iaith ar un sleid unigol, drwy wneud hyn cynigir dewis iaith i'r gynulleidfa. Os bydd angen creu cyflwyniad dwyieithog, bydd angen cadw'r testun ar bob sleid yn gryno a sicrhau bod y ddwy iaith yn ymddangos gyda'i gilydd. Mae'n arfer da i lunio templed corfforaethol dwyieithog ar gyfer cyflwyniadau.

Deunyddiau arddangos

Bydd deunyddiau arddangos yn aml yn defnyddio mwy o ddelweddau na thestun. Bydd cyfyngiadau gofod fel rheol yn golygu bod yn rhaid defnyddio cyn lleied o destun ag y bo modd, er mwyn creu arddangosfa ddeniadol a thrawiadol. Gellir llunio paneli ar wahân ar gyfer testun a delweddau, a gellir gwahanu'r ieithoedd drwy ddefnyddio paneli gwahanol. Mae hyn yn gwneud yr arddangosfa'n hyblyg, yn arbennig os bwriedir ei defnyddio y tu allan i Gymru. Mae defnyddio cod lliwiau'n ffordd effeithiol o gyflwyno'r ddwy iaith ar un panel, naill ai â thestun lliw neu â blociau lliw. Rhaid sicrhau nad yw'r lliwiau a ddewisir yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Electronic publications

Many organisations now publish reports and documents mainly online as PDF files. If materials are designed for online publishing, it should be ensured that separate language versions have a title in the appropriate language. In separate language versions, it should be ensured that the front page contains a cross-reference to the version in the other language.

PowerPoint presentations

Including both languages in a single slide is good practice, as it offers the audience a language choice. If a bilingual presentation is required, it's important to keep the wording on each slide to a minimum and ensure that both languages appear together. It is good practice to design a bilingual corporate template for presentations.

Display and exhibition materials

Display material will often make more use of images than text. Limited space will generally mean that text has to be kept to a minimum, in order to obtain an attractive and eye-catching display. Separate panels for text and images may be produced, and the language versions can be separated by being on different panels. This makes the display flexible, particularly if it is to be used outside Wales. Colour coding is an effective way of presenting the language versions within one panel, either with coloured text or with colour blocks. Care should be taken to ensure that the chosen colours do not treat the Welsh language less favourably than the English.

Gwefannau a meddalwedd

Mae'r we yn hollbwysig i fusnesau a sefydliadau, ac mae datblygu gwefannau yn rhan flaenllaw o waith dylunwyr. Mae'n hawdd cynnig dewis iaith ar wefan ac mae'r Comisiynydd wedi llunio canllaw: 'Technoleg, Gwefannau a Meddalwedd: Ystyried y Gymraeg' i gynnig arweiniad i ddylunwyr a datblygwyr meddalwedd.

Fel ym mhob agwedd ar ddylunio dwyieithog, mae'r egwyddorion yn syml: dylid cynllunio yn ddwyieithog o'r cychwyn; dylid cynnig dewis iaith rhagweithiol i'r defnyddiwr; a dylid glynu at arfer da. Dylid ystyried y pwyntiau canlynol wrth fynd ati i ddylunio gwefan ddwyieithog:

- Dylid sicrhau bod tudalen flaen y wefan yn ddwyieithog, gyda modd amlwg o ddewis iaith. Y ffordd orau o wneud hyn yw drwy dudalen 'sblash'.
- Dylid sicrhau ei bod yn hawdd newid o iaith i iaith ar bob tudalen gan fynd yn syth i'r un dudalen yn yr iaith arall.
- Dylid lleoli'r dewis iaith fel arfer yng nghornel uchaf y sgrin ar y dde.
- Gellir cofrestru cyfeiriad gwefan yn Gymraeg a Saesneg, er enghraifft comisiynyddygyymraeg.cymru a welshlanguagecommissioner.wales
- Dylid sicrhau bod cyfeiriadau e-bost naill ai yn niwtral eu hiaith neu'n ddwyieithog, e.e. post@cyg-wlc.cymru neu fod fersiynau gwahanol ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg a fydd yn cyrraedd yr un blwch post.

Does dim rheswm pam na all gwefan ddwyieithog fod yn gwbl gydnaws â safonau hygyrchedd ar gyfer y we. Mae darllenwyr sgrin ar gael sy'n darllen testun Cymraeg a Saesneg. Dyma'r prif reswm na ddylid cymysgu'r Gymraeg a'r Saesneg ar yr un dudalen. Gellir cael rhagor o gyngor ar arfer da wrth ddatblygu gwefan dwyieithog yng nghanllawiau'r Comisiynydd.


Websites and software

The internet is all important to businesses and organisations, and developing websites is a key part of a designer's work. It is easy to offer a language choice on any website, and the Commissioner has published guidelines: 'Technology, Websites and Software: Welsh Language Considerations' to offer guidance to designers and software developers.

As with all bilingual design, the principles are straightforward: bilingualism should be planned for from the outset; the user should be offered a proactive language choice; and good practice guidelines should be adhered to. The following points should be considered when designing a bilingual website:

- The website front page should be bilingual, with a clear language choice option. The best way to do this is with a 'splash' page.
- It should always be possible and easy to switch from one language to the other on every page, going straight to the same page in the other language.
- The language switch toggle should ideally be placed in the top right hand corner of the screen.
- Organisations can register in both Welsh and English, for example welshlanguagecommissioner.wales and comisiynyddygyymraeg.cymru
- E-mail addresses should be either language neutral or bilingual, e.g. post@cyg-wlc.wales or separate Welsh and English versions should be available which will reach the same mailbox.

There is no reason why a bilingual website can not be totally compatible with internet accessibility standards. There are now screen readers available which read Welsh and English text. This is the main reason why it is not recommended that Welsh and English should be mixed on the same web pages. You can get further information on good practice in developing bilingual websites and software from the Commissioner's guidelines.





Rwy'n ffyddiog y bydd y canllaw arfer da hwn yn feincnod defnyddiol i sefydliadau wrth iddynt gynllunio a chyflwyno ymgyrchoedd marchnata a chyhoeddusrwydd i'r cyhoedd yng Nghymru.

Meri Huws
Comisiynydd y
Gymraeg

I am confident that this good practice guideline will provide a useful benchmark for organisations as they design and deliver marketing and publicity campaigns to the public in Wales.

Meri Huws
Welsh Language
Commissioner

Mae'r holl ddelweddau o gwmnïau a sefydliadau ar dudalennau 26-39 yn ffug. Mae unrhyw debygrwydd i gwmni neu sefydliad go iawn yn anfwriadol ac yn gyd-ddigwyddiad.

All of the images of companies and organisations on pages 26-39 are fictional. Any similarity to real companies or organisations are unintentional and coincidental.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner